OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

**2011 Rhif 1468 (Cy. 173) (C.56)**

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 1) 2011

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Hwn yw'r gorchymyn cychwyn cyntaf a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Fesur Addysg (Cymru) 2009 ("Mesur 2009"). Mae'r Gorchymyn yn dwyn i rym adran 20 o Fesur 2009 drannoeth y diwrnod y gwneir y Gorchymyn hwn.

Yr oedd Mesur 2009 yn diwygio Rhan 4 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, a oedd yn ymwneud â gwahaniaethu mewn ysgolion, i alluogi'r plant eu hunain i wneud hawliad am wahaniaethu ar sail anabledd i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Diddymwyd Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae adran 20 o Fesur 2009 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio Mesur 2009 i dynnu'r darpariaethau a ddiwygiodd Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, ac yn eu lle mewnosod darpariaethau cyfatebol a darpariaethau priodol eraill i ddiwygio Deddf Cydraddoldeb 2010.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1468 (Cy. 173) (C.56)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 1) 2011

*Gwnaed* *10 Mehefin 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 26 o Fesur Addysg (Cymru) 2009(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 1) 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Mesur 2009" ("*the 2009 Measure*") yw Mesur Addysg (Cymru) 2009.

### Y diwrnod penodedig

**2.** Mae adran 20 (pwerau mewn perthynas â diddymu ac ailddeddfu Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995) o Fesur 2009 i ddod i rym drannoeth y diwrnod y gwneir y Gorchymyn hwn.

*Leighton Andrews*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

10 Mehefin 2011

(**1**) 2009 mccc 5.